**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**20.07.2023 @7pm**
**NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID**

1. **CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
   Croesawodd y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones, bawb i'r Cyfarfod.

2. **YN BRESENNOL**
   Cyng. Mel Briant
   Cyngh. Ieuan Davies
   Cyng. Ifan Lloyd Davies
   Cyngh. Gareth Wyn Edwards
   Cyng Alun Price Jones
   Cyng. Angharad Jones
   Cyng. Non Jones
   Cyng Richard Jones
   Cyng Gareth Owen
   Eleri Thomas (Clerc)
   Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCyrH)

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
   Ymddiheurodd y Cyng. Elgan Williams am ei anallu i fynychu'r Cyfarfod.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
   Fe wnaeth SCCH John Evans gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddigwyddiadau'n yr ardal:
   **Damwain car**: car wedi taro ffens, ac wedi arwain at anghydfod rhwng partïon ynghlwm.
   **8.07.2023**: cynigiwyd alcohol i grŵp o blant a oedd yn ceisio'r Gwobr Dug Caeredin.
   **Hawl Dramwy**: Lisburne Row: Cafwyd un person yn euog o ddifrod troseddol.
   **Difrodwyd byrddau ger Coed y Bont.** Dygwyd ffensys yn ogystal.
   Yn ychwanegol, dygwyd ffensys rhwng misoedd Ionawr a Mehefin 2023.
   **Pyllau Teifi**: defnydd oddi ar y ffordd gan feiciau modur: y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies i edrych ar ymarferoldeb gosod arwyddion yn y lleoliad hwn i atal yr arfer. Gellid cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

5. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY'N RHAGFARNU**
   Datganodd y Cynghorydd Angharad Jones fuddiant personol pan gytunwyd i anfon llythyr yn datgan llongyfarchion i staff a disgyblion Ysgol Bont ar eu llwyddiant yn arolygiad diweddar Estyn yr Ysgol. Cofnod 7:10.

6. **CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 15fed o Fehefin 2023**
   **CYNIGIWYD** (Y Cyngh. Richard Jones), **EILIWYD** (Y Cyngh. Mel Briant) a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion Cyfarfod y 15fed o Fehefin yn gywir.
   Arwyddwydd gan y Cadeirydd.

7. **MATERION YN CODI**
   **7.1** **Ardal Chwarae Pantyfedwen:** Cynhaliwyd Cyfarfod Safle ar ddydd Mawrth 4 Ebrill am 10.30am dan gyfarwyddyd Stefano Antoniazzi (SA), Cyngor Sir Ceredigion, y Cyng Gareth Owen a Mrs Clare Hughes. Roedd angen matiau newydd. Bydd angen cyllido cyfatebol wrth geisio am grant. Gallai grantiau fod ar gael i gwrdd â'r

arian cyfatebol ee am grant o £10,000, gallai arian cyfatebol o £10,000 gael ei dalu gan grant pellach.  SA i geisio gwybodaeth.

Roedd y Cyngh. Gareth Owen wedi cysylltu â 5 darparwr Arwyneb Ardaloedd Chwarae sef:

1. **RTC Safety Surfaces Cyf**

**Opsiwn 1:** RTC i gael gwared ar hen deils a chyfnewid am ddefnydd arllwys gwlyb du: Amcanbris: £11,919.00 heb TAW
**Opsiwn 2:** Defnyddio Arllwys Gwlyb Du: Teils presennol i'w symud o'r safle a'u gwaredu gan eraill: Amcanbris: £8,217 heb gynnwys TAW.

2. **DCM Surfaces:** Arllwys Gwlyb: £8,819 heb gynnwys TAW.

3. **Playtop**

Arwyneb Rwber Arllwys Gwlyb (item wedi'i ailgylchu): £13,979 heb gynnwys TAW.

**4: Abacus Playgrounds Cyf**
Cyflenwi a gosod arllwys gwlyb £16,775 (heb TAW)
Nid yw gwaith paratoi'r ddaear wedi'i gynnwys.

**5: Adventure Playgrounds: Lappset**

I gyflenwi a gosod arwyneb Rwber Arllwys Gwlyb i sylfaen a baratowyd.
Siglen Iau 21m$^2$
Siglen Plant Bach 18m$^2$
Springers 8m$^2$
Cylchfan 49m$^2$
Amryw chwarae 49m$^2$

**3 Opsiwn**
1. **DU £12,325**
2. **Fleck £13,673**
3. **Lliw Unigol: £16,718**

**Arolygiad Chwarae ROSPA 2023:** cynhaliwyd ym mis Mehefin £75 + TAW. Dosbarthwyd yr Adroddiad ymysg aelodau, a fydd yn rhoi sylw i'r materion sy'n codi, yn ystod y misoedd nesaf.

7.2 **Grant y Loteri Genedlaethol:** rhoddir sylw pellach i amodau'r Grant i gwrdd â rhai prosiectau'n y Pentref.

7.3 **Diffibriliwr ger Tafarn y Teifi, Ffair Rhos**
**Cyfanswm y diffibrilwyr o fewn Ffair Rhos a Bont yw 4 bellach**
megis:
1. Tafarn y Teifi: Ffair Rhos ( y Cyngor Cymuned wedi darparu'r bocs)
2. Neuadd Pantyfedwen, Y Bont: Clare Hughes yw'r Gwarchodwr swyddogol  o fewn y Circuit.
3. Siop y Bentref, Bont Ceredig yw'r Gwarchodwr swyddogol  o fewn y Circuit.
4. Abaty Ystrad Fflur. (y Cyngor Cymuned wedi darparu'r bocs) Bydd angen clustnodi Gwarchodwr swyddogol ar gyfer y diffibriliwr.

Roedd Pennaeth Ysgol Bont wedi cytuno i'r diffibriliwr sy'n weddill i'w leoli ar safle'r ysgol (o bosib o fewn y maes parcio). Trefniadau'n mynd rhagddynt. Bydd angen clustnodi Gwarchodwr swyddogol ar gyfer y diffibriliwr.

**7.4** **Llifogydd Afon Teifi yn ardal y Llew Coch:** mae angen tocio coed yn yr ardal. Y Cyngh. Richard Jones yn ymwneud â'r trefniadau.

**7.5** **Baneri: Ffair Rhos a'r ardal cyfagos :** Cyng. Ieuan Davies i'w prynu ar ran y Cyngor Cymuned. 6 Baner x £50

**7.6** **Is-bwyllgorau: Llywodraethwyr Ysgol**: Ysgoloriaeth: dylid anfon gwahoddiad ffurfiol i'r Diwrnod Gwobrwyo i Gadeirydd y Cyngor Cymuned yn flynyddol.

**7.7** **Goleuadau Stryd wrth brif bont y pentref:** 8 mis wedi darfod ers i'r ddamwain ddigwydd, ar y bont. Roedd y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies wedi trafod y mater gyda Swyddog Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion, a fydd yn rhoi sylw i'r mater ym mis Awst 2023.

**7.8** **Rheolau Sefydlog Model – Diwygiedig (fel y derbyniwyd gan Un Llais Cymru):** Penderfynwyd clustnodi sylw i'r ddogfen hon yn y dyfodol.

**7.9** **Manylion cyswllt y Cynghorwyr yn y Parth Cyhoeddus: CYTUNWYD** cynnwys enwau'r Cynghorwyr a'u cyfeiriadau e-bost yn unig ar wefan y Cyngor Cymuned o hyn allan.

**7.10** **Cytunwyd anfon llythyr o longyfarchiadau i'r Prifathro a staff Ysgol Bont** ar gyflawni Arolwg Ysgol Estyn rhagorol ym mis Mai 2023.

8. GOHEBIAETH

**8.1** **Gohebiaeth gan Alex Hollick,** Gweinyddwr cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer HAHAV. Mae HAHAV yn elusen sy'n cefnogi pobl â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd, eu gofalwyr a phobl mewn profedigaeth drwy galar a Gweithgareddau profedigaeth, yn eu canolfan ym Mhlas Antaron, Penparcau SY23 1SF. Mae ganddynt hefyd Wasanaeth Cymorth Cartref sy'n cael ei redeg gan Wirfoddolwyr, sy'n ymweld â chartrefi pobl unwaith yr wythnos ledled Ceredigion i ddarparu cwmnïaeth i'r rhai sydd â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd (Dim gofal personol)

Gofynnodd Alex Hollick a oedd y Cyngor Cymuned yn cyhoeddi Cylchlythyr ac os felly, a fyddai'n bosibl cynnwys erthygl fach am wirfoddoli a'u gwasanaethau. Penderfynwyd gofyn i Alex Hollick anfon y wybodaeth berthnasol ymlaen, a allai wedyn gael ei arddangos ar yr hysbysfwrdd, Facebook a'r safle ar y we'r Cyngor Cymuned.

**8.2** **Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, Un Llais Cymru** a gynhaliwyd ddydd Gwener 23 Mehefin 2023 am 11.30am yn y Pafiliwn Rhyngwladol, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt: er gwybodaeth.

**8.3 Holiadur Cydraddoldeb rhanbarthol yn gofyn am brofiadau o wasanaethau**

Mae angen Gyngor Sir Ceredigion adolygu ei Gynllun Cydraddoldeb a maent yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i geisio barn.

Dilynwch y ddolen isod i gymryd rhan yn yr ymgysylltiad.
**Arolwg o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Mae copïau papur a fersiynau mewn fformatau eraill ar gael yn llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden Ceredigion.

Bydd tystiolaeth yn ei helpu i ddatblygu set ddiwygiedig o Amcanion Cydraddoldeb i Geredigion.

**8.4 Partneriaeth Natur Leol Ceredigion**

21.07.2023. Llyfrgell Genedlaethol Aberystwyth. Cyfarfod Haf: Themau i'w trafod: Themau: Gwenoliaid Du; Cynefinoedd a Chymunedau, Canol y Dref Aberystwyth, Diweddariadau Ymgynghorwyr Bioamrywiaeth.

**8.5 Un Llais Cymru a Chyfeillion y Ddaear Cymru yn lansio canllaw gweithredu newid hinsawdd cymunedol newydd i Gynghorau lleol**

Mae Un Llais Cymru a Chyfeillion y Ddaear Cymru wedi lansio canllaw gweithredu newid hinsawdd a natur newydd sbon ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru yng Nghynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru yn ddiweddar.

Bu Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru, Rebecca Evans AS, yn traddodi araith gyweirnod yn yr un gynhadledd sy'n edrych ar sut y gall cynghorau cymuned a thref 'Wynebu Heriau Dyfodol Dyrys'.

Mae'r ddogfen newydd, sef cydweithrediad rhwng Un Llais Cymru a Chyfeillion y Ddaear Cymru, yn ceisio rhoi rhai syniadau ymarferol i gynghorau ledled Cymru ar yr hyn y gallant ei wneud ar amrywiaeth o faterion megis defnydd ynni, defnydd dŵr, gwarchod natur, cyllid, cemegau, gwastraff, bwyd a thrafnidiaeth. Mae hefyd yn dwyn ynghyd astudiaethau achos o'r gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud gan gynghorau cymuned a thref ledled Cymru ar y materion hyn

**8.6 Gohebieth Pellach:** er gwybodaeth yn unig. Roedd llawer o negeseuon e-bost wedi eu hanfon ymlaen at Gynghorwyr rhwng cyfarfodydd, yn electronig.

**9. CYNLLUNIO**

**DIM**

**10. CYLLID**

**10.1 RoSPA Arolwg Ardal Chwarae** 2023 £102.60 (gan gynnwys TAW)
**10.2 Cyflog y Clerc** Mai 2023 £213.92 (gros)
**10.3 Cyflog y Clerc** Mehefin, Gorffennaf 2023 £238.33 x2 (gros)
**10.4 Treuliau'r Clerc £104.30** (gan gynnwys TAW)
**10.5 Mrs Enid Hughes:** Archwiliwr Mewnol £100

**10.6 Cyfrifon: Cyngor Cymuned Ystrad Fflur 2022-23:** Dosbarthwyd ymysg aelodau. (Hefyd ar y wefan). Yr Archwilydd Mewnol oedd Mrs Enid Hughes. Sylwadau ynghlwm. Cymeradwywyd y Cyfrifon gan y Cyngor Cymuned. Cyflwynodd y Clerc y dogfennau priodol i'r Archwilwyr Allanol, Archwilio Cymru. Byddant hefyd ar gael i'r cyhoedd i'w gweld.

**10.7 Sefyllfa Ariannol y Cyngor Cymuned:**
**30.06.2023 Balans y Cyfrif Cyfredol: £7,635.19**
Sieciau angen eu talu: Tocio Coed £252; Yswiriant Zurich £555; Cyflog y Clerc Mai £214; Mehefin £238; Gorffennaf £238; Enid Hughes £100; Goleuadau Stryd £562; Arolwg Ardal Chwarae £100; Costau'r Clerc £104. **CYFANSWM £2,365**

**C/D £5,270 + 2/3 Praesept Cyngor Sir Ceredigion £2,234 + £2,234**
**C/D £9,918**

**10.8 Derbyniwyd llyfr siec newydd.** Rhai ag awdurdod am arwyddo: Cyngh. Gareth Owen a Non Jones. Enwau Clare Hughes a Doug Rowbothan wedi'u tynnu i ffwrdd.

**11. EITEMAU AR GYFER FB:**

**11.1 Casglu Sbwriel : Ebrill 2023**

**11.2 Gohebiaeth gan HAHAV (Cofnod 8.1)**

*Y Cyngh. Ieuan Davies i bostio'r uchod ar Fb y Cyngor Cymuned.*

**12. UNRHYW FATER ARALL**

**12.1 Torri gwair o fewn y Pentref:** gofyn i Mr D Benjamin a fyddai'n bosibl iddo ymgymryd â thoriad cyntaf y tymor yn ardal Glan-yr-Afon.

**12.2 Lôn Fach: mae angen tocio coed** i gysylltu â Clic, CS Ceredigion. Hefyd, nid oes golau stryd ar waith, ger y Cyfleusterau Cyhoeddus blaenorol

**12.3 Nodwyd bod yr Ysgol Feithrin** yn dathlu 50 mlynedd o addysg cyn ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg ar 21.07.2023**.**

**12.4 Ffair Flynyddol: Neuadd Pantyfedwen 22.09.2023:** mae angen ffenestri newydd ar y Neuadd.

**12.5 Cytunwyd anfon llythyr o ddiolch** at Mr Paul Goth am seiclo o Ffair Rhos i Loch Ness yn ddiweddar, i godi arian i'r Elusen MS.

**12.6 Mae rhai Cynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd** wedi profi problemau wrth geisio defnyddio cyfeiriad e-bost y Cyngor Cymuned megis clercystradfflur@gmail.com. Y clerc i glustnodi sylw i'r mater.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.20pm.**

**Dyddiad y Cyfarfod/ydd nesaf: Nos Iau 21ain o Fedi 2023 at 7pm.**

**Arwyddwyd/Dyddiad ---------------------------------------------------------------------------------------------**